



Rheolwr Prosiect (Cyfnod Mamolaeth), Live Music Now Cymru
Disgrifiad Swydd

Swydd	Rheolwr Prosiect (Cyfnod Mamolaeth), Live Music Now Cymru
Graddfa Gyflog	£27,000 - £30,000 y flwyddyn. <i>Yn ddibynnol ar brofiad/ gymhwyster</i>
Math o Swydd	Amser llawn, 37.5 awr yr wythnos. Mae Live Music Now Cymru yn barod i ystyried rhannu swydd ar gyfer y rôl hon. Cofiwch nodi hyn yn eich llythyr diogelu os mai hyn fyddai eich dewis chi, gan gynnwys argaeledd.
Dyddiad dechrau	Cynted â phosibl <i>Cyfnod mamolaeth pendant hyd at 28 Gorffennaf 2024 (gyda'r posibilrwydd o estyniad)</i>
Hysbysiad o'r rhestr fer	Prynhawn 10 Awst 2023.
Cyfweliadau	16 ac 17 Awst, Yn ddymunol yn bersonol ond gellir gwneud addasiadau os bydd angen. Nodwch ar eich llythyr diogelu os ydych ar gael ar y dyddiadau hyn. Mae posibilrwydd o gael ail gyfweliad ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus yn ystod rownd gyntaf o gyfweliadau.
Lleoliad	Yn bennaf, swyddfa Live Music Now Cymru, Bae Caerdydd, gyda'r dewis o weithio rhan o'r wythnos o gartref. Mae oriau gwaith yn hyblyg ond bydd yn cynnwys oriau craidd, 10am-3pm. Mae'n bosibl y bydd eich angen ar gyfer digwyddiadau sy'n cael eu trefnu ar draws yr wythnos ond yn anghyffredin ar y penwythnos (tua dau'r flwyddyn).
I Ymgeisio	Cofiwch uwch lwytho eich CV a llythyr eglurhaol sy'n amlinellu sut rydych chi'n cyflawni'r meini prawf, i'r ddolen hon https://www.surveymonkey.co.uk/r/CymruPM23 erbyn 9am dydd Llun 7 Awst 2023. Cofiwch gynnwys enwau a manylion cyswllt dau ganolwr sydd mewn sefyllfa i ddisgrifio eich gwaith yn broffesiynol gyda chyfeiriad byr at ba mor hir ac ym mha sefyllfa y maen nhw wedi eich adnabod (ni fyddwn yn cysylltu â'r canolwyr cyn y cyfweliad).
Hysbysiad	Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu darparu adborth heblaw eich bod ar y rhestr fer. Byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod os byddwch wedi eich rhoi ar y rhestr fer ai peidio. Mae Live Music Now wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac felly rydym yn weithredol yn annog ceisiadau gan bobl sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector diwylliannol a'n sefydliad ni gan gynnwys y rhai sy'n wynebu rhwystrau anabledd neu sydd wedi profi hiliaeth.. Bydd pob ymgeisydd anabl sy'n cyflawni'r meini prawf hanfodol yn cael eu cyfwrdd. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael cyfle i drafod eu gofynion mynediad ar gyfer y cyfweliad. Cyn ymgeisio neu os hoffech gyflwyno eich cais mewn ffurf wahanol, mae croeso cynnes i ddarparu ymgeiswyr ffonio Rheolwr Llinell recriwtio Cyfarwyddwr Live Music Now Cymru, Jen Abell, gydag unrhyw gwestiwn am y rôl hon Gallwch ffonio 029 2048 8654 neu anfon e-bost at jennifer.abell@livemusicnow.org.uk



Elusen yw Live Music Now sydd wedi bod yn gweithio ac yn ymgyrchu ers 1977 i greu effaith cymdeithasol, cynhwysol, mesuradwy drwy gerddoriaeth. Drwy harneisio pŵer cysylltiol cerddoriaeth a gwerthuso ei effaith, rydyn ni'n symud yr arferiad cerddorol ymlaen ac yn newid sut rydyn ni'n deall ac yn cefnogi pobl fregus a'r rhai sy'n cael eu tangynrychioli yn ein cymdeithas. Mae ein gwaith yn gwella ansawdd bywyd, iechyd a llesiant ac yn hybu cyfle cyfartal drwy gydnabod potensial creadigol pob unigolyn.

Yn greiddiol i'n damcaniaeth o newid yw'r ymrwymiad i gyflwyno effaith cymdeithasol drwy gerddoriaeth. Rydyn ni'n creu'r effaith cymdeithasol hynny drwy gerddorion yr ystyriwn fel ein partneriaid mwyaf gwerthfawr a'n hasedau mwyaf a cheisiwn wasanaethu'r angen cynyddol barhaus gan gymunedau sy'n wynebu gwaharddiant ac anfanteision cymdeithasol.

Rydym yn cyflawni hyn drwy dri ymrwymiad:

1. Cefnogi bywydau cerddorol pobl sy'n profi anfanteision a gwaharddiant cymdeithasol.
2. Datblygu a chefnogi gweithlu o gerddorion proffesiynol i sicrhau safon arfer, delio â than-gynrychiolaeth drwy greu llwybrau cynhwysol i yrfaeodd posibl a chyflenwi'r deilliannau gorau i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.
3. Hyrwyddo a rhoi tystiolaeth o fuddiannau trawsffurfiol cerddoriaeth fyw ar ddysgu, datblygu, iechyd a llesiant

Rydym ni'n cyflogi ac yn hyfforddi dros 300 o gerddorion proffesiynol i weithio gyda phobl hŷn (nifer yn byw gyda dementia), plant a phobl ifanc (CYP) sy'n wynebu rhwystrau anabledd, blynyddoedd cynnar a theuluoedd, gofaluwr a gweithwyr allweddol sy'n cefnogi eraill.

Mae ein gwaith yn cyrraedd dros 85,000 o bobl, yn bersonol ac ar-lein, yn perfformio, yn cydweithio ar ac yn creu cerddoriaeth drwy sesiynau 1:1 a grŵp, mewn cartrefi gofal, ysgolion arbennig ac ysbytai ac mewn cyngherddau. Mae ein gwaith yn helpu cyfranogwyr i gyfathrebu a gwneud cysylltiadau cymdeithasol, datblygu sgiliau a chynyddu hyder ac ystwythder.

Mae ein rhaglenni wedi'u tanategu gan waith ymchwil a phartneriaethau traws-sector yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon ac yn rhyngwladol. I gael mwy o wybodaeth ewch i'n gwefan.

Mae Live Music Now yn gweithredu ar draws y DU gyda changhennau Saesneg yn y De Ddwyrain, De Orllewin ac ar draws y Gogledd a changhennau cenedlaethol sydd ar draws Gogledd Iwerddon a Chymru gyda chwaer sefydliad yn Yr Alban. Mae'r swydd hon wedi'i seilio yn Live Music Now Cymru a byddan nhw'n gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol a'r tîm prosiect ac aelodau allweddol y tîm sydd dros y DU.

Mae tîm o Gyfarwyddwyr Strategol yn arwain datblygiad gwaith LMN ym meysydd Gofal Cymdeithasol Oedolion, Gofal Iechyd, Plant a Phobl Ifanc a Datblygu Cerddorion yn y rhwydwaith o ganghennau ar draws y DU. Mae Cyfarwyddwr ar bob cangen sy'n adrodd yn ôl i'r Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn adrodd yn ôl i'r Prif Weithredwr sydd yn ei dro yn adrodd i'r Cadeirydd a'r Bwrdd o Ymddiriedolwyr.

Bu LMN yn gweithio yng Nghymru ers 1990, gan gyflwyno dros 10,000 o berfformiadau ers hynny ac yn awr yn cynnal ar gyfartaledd 650 o sesiynau cerddorol yn flynyddol gan weithio ym mhob un o'r 22 sir yng Nghymru. Mae tîm y staff yn cynnwys y Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Rheolwr Prosiect a Chydllynydd Prosiect. Mae swyddfa Live Music Now Cymru wedi'i lleoli ym Mae Caerdydd.



Rheolwr Prosiect (Cyfnod Mamolaeth). Live Music Now Cymru
Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

Rheoli Prosiectau

- Rheoli ystod o brosiectau cerddorol a chyngherddau mewn cartrefi gofal fel y dirprwyir gan y Cyfarwyddwr Cenedlaethol, yn brydlon ac o fewn y gyllideb. Hyn I gynnwys datblygu crynodeb o'r prosiect, trefnu amserlen, cysylltu gyda cherddorion a gwestywyr, a chofnodi'n gywir incwm a gwariant y gweithgareddau;
- Sicrhau bod gweinyddiaeth a rheolaeth yn gyfoes ar gyfer prosiectau; gosod y digwyddiadau ar y gronfa ddata a chreu cytundebau, amserlenni a ffurflenni adborth ar gyfer cerddorion a lleoliadau fesul prosiect;
- Ymweld yn achlysurol â lleoliadau i arsylwi gweithgaredd prosiectau;
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol a'r Cyfarwyddwr Strategol perthnasol i sicrhau bod monitro a gweithdrefnau gwerthuso priodol yn cael eu gweithredu a bod adroddiadau cywir yn cael eu cyflwyno i arianwyr o fewn y cyfnod amser;
- Cysylltu â cherddorion a phartneriaid i gofnodi gweithgareddau drwy ffotograffiaeth, ffilm a chlywedol mewn ymgynghoriad gyda staff LMN perthnasol a sicrhau bod caniatâd priodol wedi'i drefnu;
- Paratoi adroddiadau yn ôl y gofyn ar gyfer defnydd mewnol ac allanol.

Codi arian

- Ymchwilio i gyfleoedd ariannu, cyflwyno amserlenni ac ysgrifennu ceisiadau gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Cenedlaethol;
- Rheoli perthynas gydag arianwyr, paratoi adroddiadau ar y prosiect gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Cenedlaethol;
- Cadw cofnodion incwm, gwariant a rhagamcan incwm i adrodd yn fisol i'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol;

Gweinyddu

- Cofnodi digwyddiadau misol yn y gronfa ddata (Blackbaud's Raiser's Edge), llunio cytundebau ac amserlenni ar gyfer cerddorion a lleoliadau;
- Cymell adborth/ gwerthusiad o leoliadau, cyfranogwyr a cherddorion a'u gosod ar feddalwedd cronfa ddata/arolwg yn ôl y gofyn; dadansoddi adborth ac arolygon yn fisol;
- Cadw manylion cyswllt cerddorion, partneriaid a lleoliadau'n gyfoes yn y gronfa ddata;
- Llogi ystafelloedd ar gyfer hyfforddiant ac yn y blaen, yn ôl y gofyn;
- Rheoli offer sydd ar fenthyl gan gerddorion:: iPads, allweddellau, offer taro ac yn y blaen.

Cyllid

- Tasgau rheoli misol gan gynnwys cofnodi llif arian prosiect, rheoli'r llinell gyllid, amlygu risgiau ariannol i'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol.

Marchnata a Chyfathrebu

- Casglu gwybodaeth, delweddau a dyfyniadau i ddiweddarau'r wefan a chyfryngau cymdeithasol LMN;
- Canfod a drafftio storïau newyddion gyda chefnogaeth yr Ymgynghorydd Cyfathrebu;
- Creu taflenni a deunyddiau marchnata drwy ddefnyddio Canva a Flickr (cynigir hyfforddiant)

Rheoli Cerddorion

- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol I gysylltu gyda cherddorion a chefnogi eu hymwneud a'u datblygiad gyda ni;
- Rheoli gwiriadau DBS ar gyfer cerddorion yn unol â pholisi Diogelu LMN;

Rheoli Llinell

- Gosod tasgau i'r Cydlynnydd Prosiect; rheoli pobl lawrydd a staff eraill y prosiect

Tasgau Ychwanegol

Commented [JA1]: And accurately recording income and expenditure of activities

Commented [JA2]: As part of monthly administration tasks



- Dirprwyo'n achlysurol i'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol mewn digwyddiadau allanol;
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill ar gais y Cyfarwyddwr Cenedlaethol sy'n berthnasol i'r swydd hon.

Telerau ac Amodau

Bydd cytundeb y swydd hon ar sail tymor penodol hyd at 28 Gorffennaf 2024, gyda chyfle i ymestyn y cytundeb yn dibynnu ar ddeilliannau cyllid.

Y cyflog fydd £27,000 - £30,000 y flwyddyn yn ddibynnol ar brofiad/cymhwyster am 37.5 awr yr wythnos ac yn cael ei dalu'n fisol.

a) Mae'r apwyntiad yn ddibynnol ar:

- i) Rhybudd o derfyniad pedair wythnos o'r ddwy ochr
- ii) Cyfnod prawf o dri mis

b) Mae'n bosibl y bydd angen gweithio min nos neu ar benwythnos. Ni does unrhyw dâl dros amser ond gellir trefnu amser rhydd yn lle'r gwaith goramser. i

c) Bydd y deilydd swydd wedi'i leoli/lleoli yn y swyddfa yng Nghaerdydd (er y gellir gweithio'n hyblyg ar ôl gorffen y cyfnod prawf yn llwyddiannus). Darperir offer TG.

d) Mae Live Music Now yn darparu cynllun pensiwn ar gyfer pob aelod cymwys ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf yn llwyddiannus a delir drwy'r gyflog. Mae'r sefydliad yn cyfrannu 3% o'ch cyflog i'r cynllun ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf.

Cyfle Cyfartal

Mae Live Music Now wedi ymrwmo i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac o'r herwydd, rydyn ni'n weithredol annog ceisiadau gan bobl sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector diwylliannol a'n sefydliad gan gynnwys y rhai sy'n wynebu rhwystrau anabledd neu sydd wedi dioddef gan hiliaeth.

Bydd pob ymgeisydd anabl sy'n cyflawni'r meini prawf hanfodol yn cael eu cyfweld. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael cyfle i drafod eu gofynion mynediad ar gyfer y cyfweliad.

Mae Live Music Now yn gyflogwr hyblyg a cynhwysol; mae'n bosibl y gellir gweithio'n hyblyg o drafod gyda'r rheolwyr llinell.

Os ydych am drafod y swydd ymhellach, angen help i gwblhau eich cais ar-linell, neu os hoffech chi gyflwyno eich ymatebion mewn fformat gwahanol, gallwch anfon e-bost at jobs@livemusicnow.org.uk neu ffonio 029 2048 8654.

Nodiadau

Mae pob swydd yn gallu newid o dro i dro a bydd y disgrifiad swydd hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r disgrifiad swydd yn arweiniad i'r gwaith y bydd angen i chi ei gyflawni ac mae'n cynrychioli ystod o gyfrifoldebau yn unol â graddfa'r swydd.



Rheolwr Prosiect (Cyfnod Mamolaeth), Live Music Now Cymru:
Manyleb Bersonol

Profiad	Hanfodol	Dymunol	Aseswyd
Lleiafswm o ddwy flynedd o brofiad mewn sefydliad celfyddydol, diwylliannol neu wirfoddol neu gyfatebol.	X		Cais a chyfweliad
Sgiliau/cymhwysedd			
Sgiliau Rheoli Prosiect, gan gynnwys, cynllunio, blaenoriaethu, gweithredu a monitro nifer o brosiectau gyda'i gilydd.	X		Cais a chyfweliad
Prawf o sgiliau trefniadol a'r gallu i drefnu llwyth gwaith amrywiol a sydyn.	X		Cais, prawf a chyfweliad
Gwybodaeth waith o gysylltu gyda lleoliadau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol i drefnu prosiectau.	X		Cais a chyfweliad
Hynod wybodus ar draws ystod o becynnau ICT (MS Office, Meddalwedd casglu data) a chyfarfod ar-lein ac offer rhannu gan gynnwys Dropbox a Zoom	X		Cais a chyfweliad
Sgiliau trefnu a rheoli amser rhagorol, ynghyd â delio â galwadau ffôn yn dda	X		Cais a chyfweliad
Tystiolaeth o sgiliau datrys problemau	X		Cais, prawf a chyfweliad
Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ysgrifenedig a llafar gyda pharodrwydd i ymgysylltu ag ystod amrywiol o bartneriaid.	X		Cais a chyfweliad
Gwybodaeth waith amlwg o'r amgylchedd ariannu yng Nghymru (statudol, ymddiriedolaethau a sefydliadau a/neu eraill) gan gynnwys y gallu i ddatblygu cynigion yn unol â blaenoriaethau ariannu.		X	Cais a chyfweliad
Y gallu i gynrychioli'r sefydliad, cyfathrebu'n hyderus a dirprwyo dros y Cyfarwyddwr Cenedlaethol pan fydd angen.	X		Cais a chyfweliad
Gwybodaeth waith am offer marchnata, gan gynnwys y defnydd o gyfryngau cymdeithasol i gynnwys cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid.		X	Cais a chyfweliad
Hyder wrth reoli a diweddarau cyllidebau a thracio ariannu tymor byr a thymor hir.	X		Cais, prawf a chyfweliad
Gwybodaeth ac agwedd			
Diddordeb yn natblygiad cerddorion proffesiynol yng Nghymru.		X	Cais a chyfweliad
Diddordeb mewn addysg gerddorol ac arfer cerddorol cynhwysol.		X	Cais a chyfweliad
Yn angerddol ac wedi ymrwymo i botensial cerddoriaeth fel offeryn ar gyfer newid cymdeithasol a'i effaith ar gyfranogwyr a cherddorion.	X		Cais a chyfweliad

Commented [JA3]: As it's a fixed term, minimum of two years is sufficient

Commented [JA4]: Evidence of problem solving skills



Ymrwymo i amrywiaeth, cynhwysiad, a chyfleoedd cyfartal.	X		Cais a chyfweliad
Deall ac ymrwymo i ddiogelu.	X		Cais a chyfweliad
Ymrwymo i wella prosesau a gweithdrefnau mewnol yn barhaus.	X		Cais a chyfweliad
Ymrwymo i hinsawdd arfer gwaith positif gan ddeall yr effaith y gall penderfyniadau gwaith bob dydd eu gwneud ar gyfiawnder hinsawdd yng Nghymru ac yn fyd-eang.	X		Cais a chyfweliad
Cyffredinol			
Egniol, creadigol, mentrus ac ymrwymedig.	X		Cais a chyfweliad
Gydag ysgogiad uchel; yn gallu gosod blaenoriaethau, cyflawni targedau a gweithio ar ei ben/phen ei hun wrth weithredu fel rhan o dîm ehangach o dan gyfarwyddyd.	X		Cais a chyfweliad
Gallu gweithio fel rhan o dîm a datblygu perthnasoedd effeithlon, o bell ac mewn person.	X		Cais a chyfweliad
Trwydded yrru lân ac yn berchennog car.		X	Cais
Yn gallu siarad Cymraeg.		X	Cais a chyfweliad

Eich data a phreifatrwydd

Cedwir holl ddata'r ymgeiswyr ar ein system yn ystod y broses gyfweld ac ar gyfer defnydd mewnol yn unig. Ar ôl hyn, dim ond y data personol a theyrnedau'r ymgeisydd llwyddiannus fydd yn cael eu cadw: bydd holl ddata ymgeiswyr na lwyddodd yn cael eu dinistrio neu eu dileu o'n cofnodion. Mae Live Music Now yn ymrwymo i beidio byth â gwerthu na rhoi data unrhyw unigolyn i gwmnïau allanol. Gweler ein Polisi Data a Phreifatrwydd I gael mwy o fanylion.

I weld y newyddion diweddaraf am waith a newyddion, cofiwch arwyddo i gael ein taflen newyddion ar ein gwefan ar www.livemusicnow.org.uk